swyddfa'r dyfarnwr annibynnol

# Ein Strategaeth

www.oiahe.org.uk | Ionawr 2025

## Ein pwrpas elusennol

Ein pwrpas elusennol yw hyrwyddo addysg er budd y cyhoedd trwy adolygiad annibynnol o gwynion myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr a thrwy ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o gwynion i helpu â gwella polisïau ac arferion.

## Pwrpas strategol

Gwella profiadau myfyrwyr trwy ddatrys cwynion yn deg ac yn annibynnol a defnyddio'r hyn a ddysgwn i ddylanwadu ar newid.

## Amcanion

**1.** Y gellir Ymddiried ynom i

- Ddarparu penderfyniadau teg
- Trin pawb yn gyfartal
- Gwella profiadau myfyrwyr
- Gwrando a gweithredu'n annibynnol a
- Bod yn rhesymol

A chael ein Gwerthfawrogi am ein

- Harbenigedd
- Uniondeb
- Effeithlonrwydd

**2.** Creu Effaith fel bod y Sector yn well am

- Ymdrin â chwynion
- Defnyddio dysgu o gwynion a phrofiadau ehangach i greu gwelliannau.

# Blaenoriaethau

Rydym yn blaenoriaethu pedwar maes gwaith, sef:

### 1. Gwaith Achos

Adolygu ein proses ar gyfer gwaith achos yn sylfaenol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr ein gwasanaeth yn ganolog i'r broses honno, ei bod mor effeithlon â phosibl a'i bod yn canolbwyntio ar ddatrysiad effeithiol.

### 2. Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Cynyddu effeithiolrwydd ein dylanwad i gefnogi ein hamcanion.

### 3. Cryfhau ein sylfaen dystiolaeth (data a mewnwelediadau)

Gwella ansawdd ein tystiolaeth, yn ddata a mewnwelediad, i wella ein perfformiad sefydliadol ac effeithiolrwydd o ran dylanwadu.

### 4. Datblygiad sefydliadol a diwylliannolt

Cynyddu effeithiolrwydd y sefydliad, adeiladu ar ein hymagwedd un-sefydliad a'i chryfhau, gan sicrhau y gallwn ymateb i ofynion y blaenoriaethau eraill, a chreu amgylchedd lle gall ein holl bobl ffynnu.

# Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn llywio popeth a wnawn. Rydym yn recriwtio pobl sy'n rhannu ein gwerthoedd ac sy'n ymroddedig i'n pwrpas strategol, ac rydym yn adlewyrchu ein gwerthoedd yn ein gwaith.

Ein Gwerthoedd yw:

- Uniondeb ac annibyniaeth
- Ansawdd
- Didwylledd a hygyrchedd
- Ethos gwasanaeth
- Ymgysylltiad
- Cydraddoldeb ac amrywioldeb